Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom
Nos Lun, 7 Mehefin 2021 am **7:45p.m.**

PRESENNOL: Ken Hawkins, Ian Lewney, Ifan Wyn, Heather Williams, Robert Owen Ellis a Menna Jones

1. YMGYNGHORIAD RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL LLEOL SIR DDINBYCH

Ymunodd aelodau'r pwyllgor Cynllunio a Datblygu â'r pwyllgor Amwynderau ar gyfer yr eitem agenda hon. Roedd manylion yr ymgynghoriad presennol wedi'u rhannu â'r aelodau cyn y cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r Cynghorwyr yn e-bostio eu hadborth at y Cyng. Williams, ac y bydd hi'n darparu hwn i Gyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD*: bod y Cynghorwyr i ddarparu eu hadborth ar y cynigion yn yr ymgynghoriad i'r Cyng. Williams*

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jabez Oakes.

3. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Y Maer, *y Cynghorydd Heather Williams yw'r Cadeirydd. Enwebwyd hi gan y Cynghorydd Robert Owen Ellis ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Ken Hawkins.*

4. DATGAN BUDDIANNAU

Dim

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021 i'w cadarnhau'n gywir.*

110. MATERION YN CODI

Nid oedd dim materion yn codi.

111. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Bydd y Dirprwy Glerc yn cylchredeg penderfyniadau cynllunio.

112. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer sylwadau.

PENDERFYNWYD*: nad oedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau a ganlyn:*

02/2021/0431 – Hafod 3 Wern Uchaf, Rhuthun
Dymchwel yr ystafell wydr bresennol yn y cefn a chodi estyniad cefn llawr isaf yn cynnwys balconi llawr cyntaf uwchben a gwaith cysylltiedig

02/2021/0255 – 20-22 Borthyn, Rhuthun
Codi estyniadau llawr cyntaf yn y cefn fel ag yn y cais blaenorol sydd wedi darfod

02/2021/0521 - 4 Porth Y Dre, Rhuthun
Codi estyniad deulawr ar yr ochr ac estyniad unllawr yng nghefn yr annedd a gwaith cysylltiedig

113. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 5 Gorffennaf 2021 am 7.45pm.*